| | |
|---|---|
| **From:** | Nia Thomas |
| **To:** | Wylfa Newydd |
| **Cc:** | Dafydd Gruffydd; Sioned Morgan Thomas |
| **Subject:** | Sylwadau Pellach - Menter Iaith Môn i"r Arolygaeth Gynllunio - Parthed : Wylfa Newydd |
| **Date:** | 04 December 2018 23:52:05 |
| **Attachments:** | image001.png<br>Ffurflen Adrodd ar Gynnydd GHHDG 18-19 Ch1+2.docx<br>Ch4 - Ffurflen Adrodd ar Gynnydd GHHDG 17-18 Menter Môn - Cyflwyno.docx<br>Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn.pdf<br>10B - Proffil Iaith Ynys Môn.pdf<br>Sylwadau Pellach - MIM - Arolygaeth Gynllunio.docx |

Annwyl Syr / Madam

Yn dilyn anfon ein sylwadau atoch yn ddiweddar, anfonaf ragor o wybodaeth atoch barthed y Fenter Iaith ym Môn ac atebion i'r cwestiynau a amlygwyd gan yr Arolygaeth Gynllunio.

Mae Menter Iaith Môn yn fenter egniol, flaengar sydd yn cynnig cyfleoedd amrywiol a chyffrous i bawb ddathlu a chymryd rhan yn ein diwylliant, boed yn siaradwyr Cymraeg, yn ddysgwyr, neu yn newydd-ddyfodiaid i'r Ynys.

Sefydlwyd Menter Môn yn 1995 gyda'r prif amcan o wneud y mwyaf o'r amrywiol adnoddau sydd gennym.  Mae Menter Môn yn fenter gymunedol sy'n gweithredu ar draws gogledd Cymru i gyflawni prosiectau adfywio, amgylcheddol a diwylliannol er budd cymunedau lleol. Trwy weithio mewn partneriaeth gyda llywodraeth, y trydydd sector, busnes ac unigolion, mae Menter Môn yn denu arian o wahanol ffynonellau er mwyn ychwanegu gwerth a chyfrannu at greu dyfodol cynaliadwy.

Sefydlwyd Menter Iaith Môn yn rhan o'r asiantaeth fenter yn 1997 yn dilyn cais llwyddiannus i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. 21 mlynedd yn ddiweddarach mae Menter Iaith Môn yn darparu trawstoriad o ddarpariaethau a gweithgareddau sy'n cefnogi ymdrechion i gynnal y Gymraeg yn lleol. Yn fras, dros y 6 mis diwethaf mae'r Fenter wedi trefnu 18 digwyddiad i'r gymuned gyfan gyda 994 o oedolion a 592 o blant yn mynychu,  206 digwyddiad wedi'w teilwra i blant a phobl ifanc gyda 1,681 yn mynychu, a 33 digwyddiad wedi'w deilwra i'r teulu gyda 620 o blant a 414 o rieni yn mynychu.  Mae rhagor o fanylion yn yr atodiadau.

Rydym ni'n rhan o rwydwaith cenedlaethol Mentrau Iaith Cymru ble ceir cefnogaeth a hyfforddiant cyson er mwyn datblygu sgiliau, dylanwadu yn genedlaethol a chefnogi ymdrechion Gymru benbaladr i roi statws i'r Gymraeg.

Rydym yn ymwybodol fod y Gymraeg yn wynebu bygythiadau - dangosodd ffigurau cyfrifiad 2011 hynny, ond rydym yn awyddus i brofi fod Ynys Môn am barhau yn gadarnle i'r Gymraeg ac rydym am chwarae ein rhan wrth sicrhau cyfle cyfartal i holl drigolion Môn.

Y sefyllfa gyfredol :

Yn ôl ffigyrau'r cyfrifiad 2011 mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn wedi gostwng o 38,893 (60.1%) yn 2001 i 38,568 (57.2%) yn 2011. Mae'r gostyngiad hwn o 325 o unigolion yn gyfystyr â gostyngiad o 0.8% yn nifer siaradwyr Cymraeg yn y sir. Rhwng 2001 a 2011, gwelwyd cynnydd o oddeutu 3,000 ym mhoblogaeth y sir - sef cynnydd o 4.4%. O ystyried y cynnydd hwn yn y boblogaeth, mae'r ganran o bobl Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng o 60.1% i 57.2%.

Yn seiliedig ar newid naturiol yn unig (h.y. genedigaethau a marwolaethau), ni fyddai poblogaeth y sir wedi tyfu dros y cyfnod yma. Felly, mae'r newid hwn yn y boblogaeth oherwydd effaith mudo - gan gynnwys mudo mewnol (oddi fewn i'r Deyrnas Unedig) a mudo o dramor.

Ym Môn, mae mudo net negyddol yr uchaf ymysg y grŵp oedran 15-29, gydag ar gyfartaledd oddeutu 180 mwy o bobl o'r grŵp oedran hwn yn symud allan o'r sir nag yn symud i mewn iddi. I'r perwyl hwn, mae'n bwysig sicrhau cyfleodd cyfartal yn y gweithle i bobl ifanc lleol ddatblygu'r sgiliau cymwys o fewn y dablygiadau arfaethedig.

Mae modd i chi gael mynediad at y wybodaeth gyfredol ym Mhroffil Iaith Ynys Môn.

Yn ogystal ag ymateb i ofynion proffiliau iaith y sir, rydym yn ymrwymedig i Strategaeth Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru, yn benodol drwy weithio o fewn Thema 2, Cynyddu Defnydd y Gymraeg.

Rydym hefyd yn ymrwymo i Gynllun Llesiant Môn sy'n treiddio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, ble nodir dyheadau bobl Môn sef;
• Pwysig cadw pobl ifanc yn yr ardal / Pryder fod nifer yn symud i ffwrdd
• Pryder bod llai yn siarad Cymraeg
• Angen cefnogi'r rhai di-Gymraeg i ddysgu'r iaith
• Angen hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg
• Pryder am ddyfodiad datblygiadau arfaethedig a'r effaith fydd hyn yn gael ar yr iaith a'r boblogaeth.

Mae ein gwaith felly yn seiliedig ar strategaethau cenedlaethol drwy ddiwallu anghenion a dyheadau lleol.

**Sylwadau'r Arolygaeth:**

**Q10.5.2** Yn eich RR, rydych chi wedi nodi pryder ynghylch faint o hyfforddwyr / athrawon cyfrwng Cymraeg fydd ar gael, a faint o amser mae'n cymryd i hyfforddi hyfforddwyr / athrawon Cymraeg – a allwch chi :

a. Ddarparu manylion ynghylch faint o hyfforddwyr / athrawon Cymraeg cofrestredig sydd ar gael
b. Faint o amser mae'n cymryd i hyfforddi hyfforddwr / athro iaith; ac
c. Enghreifftiau o broblemau'n ymwneud â recriwtio e.e pa mor anodd yw recriwtio athrawon sy'n siarad Cymraeg mewn ysgolion lleol?

**Ymateb Menter Iaith Môn**

a. Mae gwahaniaeth rhwng athro sy'n gymwys i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn drawsbynciol ac athrawon sy'n darparu cefnogaeth trochi iaith, mae'n aneglur i ba fanylder mae angen y wybodaeth i'r arolygaeth. Mae prinder ac argyfwng cenedlaethol mewn athrawon cyfrwng Cymraeg yn drawsbynciol - her sy'n wynebu Llywodraeth Cymru yn ddyddiol.

   Sefyllfa Trochi - mae cywerth a 5 athro trochi ar Ynys Môn ar hyn o bryd - 2 yn llawn amser yn y ddwy ganolfan drochi, ac 2 yn rhan amser rhwng y ddwy ganolfan yn Ysgol Llanfawr ac Ysgol Moelfre sy'n gywerth â 5 athro llawn amser. Rydym yn ymwybodol fod yn awdurdod yn adnabod ac wedi cyflwyno gerbron yr Arolygaeth yn ymateb i **Q10.5.5** fod angen dyblu'r ddarpariaeth hwn o ganlyniad i ddatblygiadau Wylfa Newydd. Mae'r canolfannau trochi yn llawn ym Môn, gyda 45 ar y rhestr aros ar gyfer Gwanwyn 2019 felly mae'r angen am yr athrawon hyn i ddiwallu gofynion lleol yn fwy nag erioed yng ngoleuni'r datblygiad.

   Nid yw athro cylchol yn ateb gofynion yr Ynys. Mae llwyddiant y Canolfannau Trochi presennol yn profi effeithiolrwydd cwrs trochi dwys dros 10 wythnos sydd wedi ei deilwra'n arbennig er mwyn sicrhau cyrhaeddiad digonol yn y Gymraeg i gymhathu i gyfundrefn yr Ysgol

a’r gymuned ehangach.

b. Mae angen i’r ddarpariaeth gael ei hariannu a’i sefydlu o flaen llaw i gyrhaeddiad gweithwyr Wylfa Newydd. Mae’r awdurdod yn adnabod bod angen o leiaf dwy flynedd er mwyn recriwtio a hyfforddi staff addysgu arbenigol, ac yno gallu defnyddio'r staff arbenigol i hyfforddi athrawon sector cynradd mewn ysgolion sy'n debygol o dderbyn mewnfudwyr. Mae angen datblygu ac ymgorffori strategaethau sgrinio megis WELLCOMM yn y Cyfnod Sylfaen a gwella athrawon prif ffrwd CA2 a CA3 i ddefnyddio sgiliau trochi yn yr ystafell ddosbarth. Bydd angen datblygu deunyddiau a hyfforddiant yn yr ieithoedd ychwanegol heblaw am Saesneg e.e. Siapaneaidd ac ieithoedd eraill disgwyliedig a bydd angen hyn oll mewn cyfnod o adeiladu, cynnal a gweithredu a dadgomisiynu Wylfa Newydd.

c. Un enghraifft ar lefel lleol ydi penodi athro Gwyddoniaeth di-Gymraeg mewn ysgol Uwchradd ym Môn oherwydd diffyg athrawon Cymraeg cymwysedig yn draws-bynciol. Mae recriwtio athrawon yn argyfwng Cenedlaethol, a’r galw am athrawon Cymraeg yn fwy nag erioed wrth i Lywodraeth Cymru lywodraethu eu rhaglen Symud Cymru ‘Mlaen 2016 - 2021. Fel rhan o’r rhaglen hwn, mae’r Llywodraeth drwy law partneriaid fel y Mentrau Iaith yn gwireddu Strategaeth Cymraeg 2050 a’r bwriad o gyrraedd miliwm o siaradwyr Cymraeg, a Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg. Awgrymwn mai drwy law LLC cewch y wybodaeth gyfredol am argyfwng athrawon Cymraeg.

Gobeithiwn ein bod wedi diwallu cwestiynau’r Arolygaeth, ond yn fwy na hynny, cyflwyno’r dystiolaeth bellach fod y Gymraeg yn fyw ym Môn, gyda mudiadau megis y Fenter yn gweithio’n galed er mwyn sicrhau dyfodol a pharhad i’n hiaith fel iaith gymunedol fyw. Wedi atodi mae rhaglen waith y Fenter dros yr 18 mis diwethaf sy’n profi hyn.

Mae Môn yn un o gadarnleoedd y Gymraeg ac mae’n hanfodol bwysig fod Horizon yn blaengynllunio lliniaru effaith y mewnlifiad hwn ar fudiadau, fel y Fenter, a’r ergyd ar y boblogaeth leol.

Hapus i drafod ymhellach.

Diolch,

Nia

NIA WYN THOMAS

Prif Swyddog / Chief Officer
Menter Iaith Môn

01248 725700 / 732
www.facebook.com/menter.iaith.mon
www.facebook.com/theatrieuenctidmon
Trydar / Twitter : @moniaith

gwerth mewn gwahaniaeth
delivering on distinction

This email has been scanned by the Symantec Email Security.cloud service.
For more information please visit http://www.symanteccloud.com